20 Ionawr 2009

Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

DATGANIAD I'R WASG

SHAKESPEARE YN RHAD AC AM DDIM AR GYFER YSGOLION CEREDIGION

Gwybodaeth yn dechrau ....

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn cynnig i ysgolion uwchradd yng Ngheredigion y cyfle i weld gwaith Shakespeare yn cael ei berfformio'n fyw ar y llwyfan - a'r cyfan am ddim! Mae'r ganolfan wedi trefnu i Gwmni Theatr Propellor, sy'n arbenigo mewn cyflwyno gwaith Shakespeare mewn modd cyffrous a dyfeisgar, i berfformio *A Midsummer Night's Dream* a *The Merchant of Venice* ar ddechrau mis Chwefror, a chynigir 250 o docynnau'n rhad ac am ddim ar gyfer ysgolion yng Ngheredigion i weld y ddau gynhyrchiad.

Gwnaethpwyd y cynnig hwn yn bosibl yn sgil arian a roddwyd i'r Ganolfan fel rhan o wobrau 'Ffagl' Cyngor Celfyddydau Cymru, sef gwobrau cenedlaethol a wneir er mwyn cydnabod cwmniau a mudiadau sy'n gyson yn cyflwyno ac yn creu gwaith o ansawdd uchel ac yn cyflawni lefelau uchel o ragoriaeth. Dywedodd cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau, Alan Hewson:

''Roedd derbyn statws y Ffagl yn fraint i'r Ganolfan gan ei fod yn cydnabod ansawdd ac amrywiaeth y gwaith yr ydym yn medru cyflwyno i gynulleidfaoedd. 'Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthynas da gydag ysgolion er mwyn helpu i roi i bobl ifanc y cyfle i brofi'r celfyddydau ar eu holl wahanol ffurfiau. Mae ysgolion Ceredigion wedi bod yn gefnogol iawn o'n gwaith dros y blynyddoedd, ac felly 'roeddem yn awyddus i ddefnyddio rhan o'r cymorthdal a dderbyniwyd o dan y cynllun hwn i ddweud diolch iddynt - ond hefyd i alluogi disgyblion y sir i weld gwaith Shakespeare yn cael ei berfformio'n fyw gan un o'r cwmniau gorau ar daith yn y DU ar hyn o bryd.'

Gellir gweld y perfformiadau o *A Midsummer Night's Dream* a *The Merchant of Venice* yn y Ganolfan o Nos Fawrth 3 – Nos Sadwrn 7 Chwefror. Dylai ysgolion sydd

â diddordeb mewn archebu tocynnau ar gyfer eu disgyblion gysylltu â Swyddog y Celfyddydau Perfformio sef Gill Ogden ar 01970 621512 / ggo@aber.ac.uk neu ffonio'r Swyddfa Docynnau'n uniongyrchol ar 01970 62 32 32. Rhoddir y tocynnau ar sail y cyntaf i'r felin, felly peidwich ag oedi!

DIWEDD/

Nodiadau i olygyddion:

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sydd wedi ennill sawl wobr, yw'r ganolfan fwyaf o'i math yng Nghymru. Mae'n adran o Brifysgol Aberystwyth ac mae'n cynnig cymysgedd o ddigwyddiadau, arddangosfeydd cyfoes a gweithgareddau sydd heb eu hail yn genedlaethol. Trwy ei rhaglen addysg a chymunedol ym maes y celfyddydau gweledol a pherfformio, mae'n darparu gwasanaeth pwysig ar gyfer y gymuned leol a'r rhanbarth.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw'r unig ganolfan yng Nghymru i gael ei chynnwys ar daith gyfredol cwmni Propeller.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Louise Amery, 01970 622889 lla@aber.ac.uk